❖ Croesawn y Goleuni na Ellir mo'i Ddiffodd

Mae cannwyll gynta'r Adfent wedi'i chynnau. Mae'n symbol o obaith a heddwch. Dyna mae'r efengyl yn ei gynnig i'r byd, byd sydd yn aml yn helbulus a thywyll.

Gobeithio y cawn dros dymor y Nadolig eleni glywed Duw yn ein tawelu o wybod bod popeth yn dda, ganwyd Imanuel. Syfrdanwyd pawb gan enedigaeth Iesu. Dyw hynny ddim yn syndod; mae'r digwyddiad yn ysgubol. Dyma'r Duw tragwyddol yn dod yn un ohonom mewn baban bach. Gan bwyll y daeth cymeriadau'r ddrama fawr i sylweddoli mai dyna oedd yn digwydd. Fu dim byd fel hyn o'r blaen. Mae'r cwbl yn newydd. Peth cyffredin yw ofni'r gwahanol.

Dro ar ôl tro yn y stori mae Duw yn rhoi neges i bobl beidio â dychryn:
Paid ag ofni, Mair – oherwydd cefaist ffafr gyda Duw.
Paid ag ofni, Joseff – paid â rhoi Mair heibio, cymer di ei hochr hi a'r baban.
Paid ag ofni, Sachareias – cei di ac Elisabeth fab, Ioan.
Peidiwch ag ofni, fugeiliaid – yr wyf yn cyhoeddi i chwi newyddion da.

Gwahanol iawn oedd hi yn y palas. Pan glywodd Herod a'r awdurdodau fod doethion yn chwilio am frenin newydd yn Jerwsalem, roeddent mewn panic, ac yn fuan iawn wedi troi'n dreisgar a chreulon. Mae gofid a straen a chreulondeb yn gryf o hyd, ond nid nhw sydd â'r gair ola. Daeth y goleuni na ellir ei ddiffodd.

Boed i dangnefedd a heddwch a gobaith y Nadolig feddiannu ein calon, ein cartref, ein heglwys, ein byd.

Dewi Myrddin Hughes